# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad: Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr L Lacey (Cadeirydd), G Berry, P Hourahine, M Al-Nuaimi, Y Forsey, C Evans, M Evans and C Ferris

Yn bresennol: Tracy McKim (Head of People, Policy and Transformation), Gareth Price (Head of Law & Regulation) and Meirion Rushworth (Head of Finance)

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

2 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2019**

Derbyniwyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2019 yn gofnod gwir a chywir.

Mynegwyd pryder gan Aelod nad oedd taflen weithredu wedi'i chynnwys yn y pecyn agenda, ac nad oedd yn yr agenda flaenorol ychwaith. Cafwyd hyfforddiant gorfodol fel yn y cyfarfod blaenorol. Gwnaed sylwadau wedyn fod gennym y daflen weithredu i'w monitro ac y dylid mynd ar drywydd camau nad ydynt wedi'u cwblhau ac anfon sylwadau ac argymhellion at y Cabinet a'r Cyfarwyddwyr.

3 **Rhagamcanion Ariannol Cyllideb a Thymor Canolig 2020-21 (MTFP)**

Gwahoddedigion

- Meirion Rushworth - Pennaeth Cyllid
- Rhys Cornwall - Pennaeth Pobl a Newid Busnes
- Y Cynghorydd Chris Evans – Cadeirydd Pwyllgor Craffu Perfformiad – Lle a Chorfforaethol
- Y Cynghorydd David Williams – Cadeirydd Pwyllgor Craffu Perfformiad – Pobl
- Tracy McKim - Rheolwr Polisi, Partneriaeth a Chynnwys
- Amy Peard – Partner Busnes Cyllid

Cafwyd ymddiheuriadau ar ran Pennaeth Pobl a Newid Busnes. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid drosolwg o'r adroddiad i'r pwyllgor a siaradodd am y broses yr oedd y meysydd gwasanaeth wedi mynd drwyddi eleni. Dywedwyd bod y broses yn syml yn yr ystyr ei bod yn edrych yn debyg i brosesau'r gorffennol. Gan mai dim ond am flwyddyn y

cadarnhawyd ein cyllid ein hunain, roedd yn bwysig nodi cynnydd mewn costau, blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol o ran costau a'r cyllid a ragwelir. Mae gennym gynllun tymor canolig nad yw wedi'i fantoli o hyd, mae'r rhan fwyaf o arbedion yn seiliedig ar y flwyddyn nesaf, sy'n destun rhwystredigaeth i bawb. Eleni, ceisiwyd torri'r cylch drwy gael cymorth allanol gan ymgynghorwyr o'r enw Knights yn yr haf

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.*

a ddaeth ag egni a phroses feddwl wahanol. Buont yn gweithio gyda phob Pennaeth Gwasanaeth i nodi'r cyfleoedd oedd gennym i arbed arian. Maent hefyd yn anfon adroddiad terfynol ar feysydd y gallem eu datblygu.

Nododd Knights hefyd pa mor ddarbodus yw strwythur ein Cyngor o'i gymharu â chynghorau eraill y maent wedi gweithio gyda nhw. Roedd gwaith yn cael ei wneud dros yr haf, cyrhaeddodd ddechrau'r hydref a dal i dargedu a chydbwyso cyllideb y flwyddyn nesaf, sy'n heriol ac yn rhwystredig i Benaethiaid Gwasanaethau ac yn fewnol. Rhoddwyd y diweddaraf i'r Cabinet ym mis Rhagfyr ynglŷn â'r grant a ddaeth ddeuddydd cyn cyfarfod y Cabinet. Roedd eleni'n unigryw oherwydd yr etholiad. Roedd y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau cynllunio, a wneir yn glir yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad wedi'i ddiweddaru yn llawer mwy cadarnhaol. Mae'r Cabinet bellach yn ystyried ei safbwynt ac yn gwneud penderfyniad ar 14 Chwefror.

Yna, dywedodd y Pennaeth Cyllid y bydd y Cabinet yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn yr isafswm cyflog. Mae'r tymor canolig yn ansicr o hyd. Disgwylir i'r gyllideb genedlaethol gael ei phennu ym mis Mawrth, ac mae dadansoddiad wedi'i wneud i weld beth mae hynny'n ei olygu i gyllideb Llywodraeth Cymru. Roedd y Pennaeth Cyllid yn awyddus i bwysleisio y bydd y diweddariad ddechrau'r haf pan roddir gwybodaeth am gyllideb y DU ym mis Mawrth, yn bwysig. Nid yw'n golygu na allwn gynllunio dros y tymor canolig, ond mae'n anodd.

Dywedodd y Rheolwr Polisi, Partneriaeth a Chynnwys fod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng mis Rhagfyr 2019 a 31 Ionawr 2020 felly nid yw'r niferoedd terfynol yn hysbys. Mae'r tîm wedi gweithio'n agos gyda Phenaethiaid Gwasanaethau i weld pa gynigion yr ymgynghorwyd arnynt. Mae'r rheini wedi cael eu hyrwyddo ar-lein, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd. Fe'i hyrwyddwyd hefyd ar Wi-Fi'r bysus. Y nifer diweddaraf o ymatebion i'r arolygon Wi-Fi bysus oedd tua 3000. Mae'r tîm yn disgwyl llu o ymatebion tua diwedd y mis. O sylwadau blaenorol y Pwyllgor Craffu, mae'r tîm wedi cynnal digwyddiadau cyn y gyllideb lle maent yn siarad â'r cyhoedd wyneb yn wyneb mewn gwahanol leoliadau am yr heriau, yr hyn sy'n bwysig iddynt a blaenoriaethau. Mae'r tîm hefyd wedi gweithio gyda'r Comisiwn Tegwch ac yn disgwyl i'w hymateb fynd i'r Cabinet. Dywedwyd hefyd bod gwaith wedi'i wneud gyda fforymau Dros 50 oed, y Cyngor Ieuenctid ac i hyrwyddo i grwpiau eraill fel GAVO a grwpiau anodd eu cyrraedd eraill yn y gymuned.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Nododd y swyddog y cynllun pedair blynedd, ac argymhellodd nodiadau o gynllun pedair blynedd y llynedd. Ble mae'r bloc hwnnw? Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod gennym gyllideb dreigl tymor canolig, ond nid yw'n nodi arbedion dros y tymor canolig, ond mae'n nodi lle rhagwelir y bydd y costau dros y pedair blynedd. Roedd yn rhaid gwneud rhagdybiaethau, nid yw'n amlwg beth yw'r rhwystr. Bu ymgais yr haf hwn i symud yr agenda yn ei blaen ond mae angen yr amser a'r lle arnom i wneud hynny, sy'n anodd gyda phobl brysur iawn. Dywedodd adroddiad Knight hyd yn oed fod y Cyngor yn brin iawn o reolaeth a chapasiti strategol sy'n golygu y gall yr amser y mae swyddogion ar gael i ystyried y tymor hir fod yn gyfyngedig ac yn fyr iawn.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar dudalen 29, a yw pwysau cyllideb ysgolion yn gostwng? Dywedwyd bod y ffigurau'n dangos gostyngiad, fodd bynnag, mae'r rheini oherwydd ysgolion newydd a chwyddiant cyflogau. Mae ariannu ysgolion yn fater o bwysau gwirioneddol ac mae'n peri pryder. Roedd y tybiaethau wedi'u gwneud ar y Dyfarniad Cyflog, a wnaed i fod yn 2%.

- Holodd yr Aelod am graff y gyllideb ragamcanol ar dudalen 31. Gyda swm y grant cymorth yn well na'r disgwyl a fyddai hynny'n newid y graff? Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai mewn ffordd bod y bwlch yn 2021 wedi newid. Nid oedd y Swyddog yn credu y byddai'r duedd hon yn parhau. Dywedwyd y byddai cyllideb genedlaethol y llywodraeth ym mis Mawrth yn bwysig o ran a fyddai'n golygu cyllideb blwyddyn neu dymor canolig i'r DU a beth fyddai hynny'n ei olygu i gyllid Llywodraeth Cymru dros y tymor canolig. Yn seiliedig ar faniffesto'r Ceidwadwyr, tynnodd sylw at y ffaith na fyddai unrhyw arian ychwanegol yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru, ond gallai hyn newid ym mis Mawrth.

- A ddylid newid y llinell uchaf i edrych yn nes at 2022-23? Dywedwyd y byddai newid, bydd y graff yn cael ei ddiweddaru yn yr haf pan edrychir ar gynlluniau, ond mae'n dibynnu ar rai pwysau cyllidebol sydd gennym. Mae Casnewydd yn obeithiol ynghylch y Grant Cynnal Refeniw, ond mae angen i ni fod yn wyliadwrus ynghylch y grant a'r pwysau presennol.

- Beth oedd cost yr ymgynghorwyr allanol? Dywedodd y Pennaeth Cyllid y bydd y ffigur gwirioneddol yn cael ei roi i'r pwyllgor.

- Gyda llywodraeth newydd, a oes arwydd y bydd cyni yn dod i ben? Nac oes, yn ôl barn y Pennaeth Cyllid, mae'r arian cyhoeddus yn sefydlog ac efallai'n gwaethygu ychydig, sy'n broblem. Nid yw heriau ariannol y Cyngor yn ymwneud â chyllid yn unig, sydd 75% yn dod o'r grant, ond mae hefyd yn berthnasol i bwysau cost sy'n cynnwys llacio cyfyngiadau cyflog a galw gan ofal cymdeithasol a chostau plant.

- Soniodd yr Aelodau am bwysigrwydd proses y gyllideb, bod angen i breswylwyr ddeall y neges a beth yr ydym yn ei gynnig a phaham. Nodwyd yn argymhellion y llynedd y dylai Penaethiaid Gwasanaethau ac Aelodau'r Cabinet ymgynghori â grwpiau targed y mae cynigion yn effeithio arnynt. Ychwanegodd Aelod hefyd nad oes llawer o bostio'n cael ei wneud ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor am y gyllideb. Dywedwyd wrth yr Aelodau yn gyntaf fod cryn dipyn o negeseuon yn cael eu gwneud ar-lein gan y Cyngor. Yna cynghorwyd bod ymgynghoriadau gyda grwpiau targed wedi'u cynnal mewn rhai meysydd gwasanaeth, ac nad yw'r ymgynghoriad ar y gyllideb wedi dod i ben eto. Mewn cyfarfod cyhoeddus yn ddiweddar roedd cynrychiolwyr o sectorau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol megis gofal cymdeithasol, a hefyd grwpiau fel GAVO. Ychwanegwyd bod pobl yn cydnabod pam y mae angen gwneud arbedion. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod 15 o bobl wedi mynychu'r cyfarfod hwn, a oedd yn fwy na'r llynedd.

- Trafododd yr Aelodau ychwanegu'r grŵp ymgynghorol i helpu i sbarduno syniadau newydd ar gyfer proses y gyllideb, a gwnaed sylwadau mai gwaith y swyddog yw hyn. A yw'r Pennaeth Gwasanaeth yn credu ei bod yn ddoeth gwario £30,000 o arian cyhoeddus pan fydd y Cyngor yn bwriadu tynnu arian oddi ar blant ar gyfer tocynnau bws, ac a oes unrhyw ddifaru o ran hyn? Dywedwyd wrth yr Aelodau mai proses dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredol oedd hon ac weithiau mae angen dod â chymorth i mewn i helpu gyda chapasiti. Os yw pobl fewnol yn ei chael hi'n anodd ymateb i heriau, yna

weithiau mae angen i chi gyflwyno ysgogiad allanol. Ar y sail honno, bu'n rhaid i'r Cyngor wneud felly. Yna cynghorwyd bod y cyllid ar gyfer y grŵp ymgynghorol yn dod o gronfeydd wrth gefn i gefnogi cost newid ac nid o gyllideb y Cyngor.

- Gwnaed Sylw am y defnydd o gyfryngau cymdeithasol y Cyngor ar gyfer yr ymgynghoriad, bod y post Facebook ddiwethaf a wnaed ar 10 Ionawr a'r post Twitter diwethaf ar 3 Ionawr, ers hynny nid oedd dim wedi'i bostio. Rhoddwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar safle lleol a'r adborth oedd ei bod yn anodd llywio, rydych yn clicio ar y ddolen gyntaf y gall rhywun feddwl mai dyma'r ymgynghoriad ond mae 50+ tudalen.

  Gwnaed sylw ychwanegol ynglŷn â'r asesiad o effaith, ei bod yn hanfodol ein bod yn mynd at grwpiau ffocws yr effeithir arnynt megis rhieni plant â thocynnau bws. Yna, roedd yr Aelodau am ganmol y gwaith a wnaed gyda'r Cyngor Ieuenctid.
- Holodd yr Aelodau am yr Asesiadau Tegwch a Chydraddoldeb, a gyflwynwyd mewn dwy set o gofnodion Craffu blaenorol. A oedd hi'n rhy hwyr i ysgrifennu'r dogfennau? Dywedodd y Swyddog ei bod hi bellach yn rhy hwyr, ond maent wedi'u cyhoeddi nawr gan fod angen mwy o waith arnynt. Dysgwyd y wers bod angen gwella'r ansawdd. Yna cynghorwyd bod y ddeddf yn cael ei hystyried ym mis Ebrill.

- Gwnaed sylwadau am ba mor hawdd ei defnyddio yw'r gyllideb. Er ei bod wedi'i gwella ers y llynedd, gellir ei gwella hyd yn oed yn fwy er mwyn dod o hyd i dudalen gychwyn y cynigion yn haws. Beth rydym yn ei wneud i sicrhau ein bod yn cyrraedd amrywiaeth o breswylwyr yn ddemograffig ac yn ddaearyddol? Rydym yn cyrraedd rhai grwpiau ond mae rhai'n cael eu colli. Awgrymwyd wedyn y gallem e-bostio preswylwyr a oedd wedi cytuno i ohebiaeth gan y Cyngor wrth gofrestru i ddefnyddio Fy Nghasnewydd. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am gymhariaeth o'r ymatebion ar gyfer eleni a'r llynedd.
  Cytunodd y swyddog fod angen gwella cyfathrebu, ond mae'r timau ar y trywydd iawn. Roedd gwaith wedi'i wneud ar ddata demograffig ac oedran o un flwyddyn i'r llall felly mae'r gwasanaethau'n gwybod pa feysydd ymgynghori sy'n debygol o gael llai o effaith a chynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod 4000 o ymatebion y llynedd, a chafwyd llu o ymatebion yn dilyn hynny gan grwpiau, a hefyd gan bobl ifanc a'r henoed o Wi-Fi bysus. Gall cynghorwyr hefyd helpu yn ystod cyfarfodydd ward i gynnal arolygon papur. Dywedwyd hefyd y bu problem dechnegol o ran defnyddio e-bost, ond ni allwn ddefnyddio e-bost at y dibenion y mae pobl wedi cytuno â hwy wrth ymuno â Fy Nghasnewydd.
- Gwnaed sylwadau y dylai'r Tîm Cyfathrebu fod yn edrych drwy gydol y flwyddyn ar ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl ond yn gwerthfawrogi y gallai fod yn anodd. Awgrymwyd, gyda chynigion fel parcio yn Faulkner Road, y dylai Tîm y Prosiect edrych ar arfer gorau a dechrau drwy edrych ar atebion, yna ymgynghori â staff gan fod cynigion yn ymddangos y tu ôl ymlaen ar hyn o bryd. Dywedodd y Pennaeth Cyllid y gweithredir dull sy'n seiliedig ar dargedau o ran cynigion ac yn ddelfrydol hoffai i bawb ddatblygu dull tymor canolig o gynllunio megis sut olwg fydd ar wasanaethau mewn tair i bum mlynedd. Cytunwyd mai'r her yw symud i ddull gwahanol o feddwl a credir y byddai'r dull hwnnw o weithredu yn mynd i'r afael â llawer o'r materion a argymhellwyd. Ychwanegodd y Rheolwr Polisi, Partneriaeth a Chynnwys y gellid rhoi opsiwn B ac C er mwyn gwneud ymgyngoriadau'n well o bosibl.

- Dywedodd yr Aelodau y dylid rhoi ymatebion a datganiad yr Aelod Cabinet i'r pwyllgor, gan fod y pwyllgor am egluro'r hyn y mae angen ei wneud y tro nesaf. Credid y bydd mwy o bobl yn ymateb i ymgyngoriadau. Gwnaed sylw wedyn y gall defnyddio ymgyngoriaethau fod o ddefnydd i wella'r ffordd o weithio. Yna, holodd yr Aelodau am y dreth gyngor, a oedd y cynllunio cyfan yn seiliedig ar gynnydd o 1% yn y cyfraddau?
  Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gwasanaeth wedi mynd i mewn i'r gyllideb ddrafft gyda chynnydd o 1% mewn golwg gan y Grant Cyllid Refeniw, ac y bydd yn adolygu'r blynyddoedd i ddod ond y byddai angen iddo aros cyn cyhoeddi cyllideb mis Mawrth. Heddiw, oherwydd newid ym mhoblogaeth Casnewydd gallwn fod yn fwy optimistaidd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae hyn wedi'i fwydo'n ôl i Aelodau'r Cabinet. Dywedwyd hefyd bod yr ymgynghoriad yn seiliedig ar dybiaethau cynllunio.
  Yna, rhoddodd y Pennaeth Cyllid wybod i'r pwyllgor am y cynnydd yn y contractau cyflog byw a gofal cymdeithasol lle bydd angen i'r Cabinet ystyried y materion sy'n ymwneud â phwysau cost ac adborth o ymgyngoriadau. Dim ond y mis hwn y cadarnhawyd y cynnydd mewn cyflog byw a'r Ardoll Dân ar ôl i'r gyllideb ddrafft gael ei gwneud.
- Gwnaed sylwadau y bydd y cynnydd mewn cyflog byw yn bwydo i mewn i'r economi. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd angen i'r Cyngor ddod o hyd i fwy o arian o safbwynt y gyllideb.

- Holodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl i ysgolion ddefnyddio eu cronfa ddata o gysylltiadau er mwyn cynnal ymgynghoriad ehangach, neu a fyddai'r Cyngor yn gallu e-bostio dolenni i'r ymgynghoriad i ysgolion eu rhoi i rieni? Dywedwyd wrth yr Aelodau bod ysgolion yn cofrestru i glywed am newyddion, ond dim ond drwy Fy Nghasnewydd. Fodd bynnag gallant gynnig yr awgrym i e-bostio ysgolion gyda'r ddolen i'w rhoi i rieni, gan fod gan ysgolion gyfrifon cyfryngau cymdeithasol llawer mwy llwyddiannus.

- A yw'r arolygon bysus yn ffordd foddhaol o gael data ystyrlon? Dywedwyd nad yw'r arolygon bysus yn arolygon llawn, mae'r Cyngor yn ceisio cyrraedd pobl na ellid eu cyrraedd o'r blaen. Dywedwyd wedyn, pan fydd y Cyngor yn gwneud gwaith rhag-gyllidebol mewn digwyddiadau gyda defnyddwyr gwasanaeth cyffredinol neu Ddiwrnodau Dros 50, y bydd llawer o bobl yn dweud nad oes ganddynt farn ar y gyllideb, neu ei bod yn rhy gymhleth. Nid yw rhai am fod yn hunanol ynglŷn â gwneud sylwadau am wasanaethau nad ydynt yn gwybod amdanynt.

- Gwnaed ymholiad am dudalen 30 yr adroddiad, y nodir bod £1.3 miliwn yn cael eu rhoi mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn nesaf. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod ein cyllideb ar gam y gyllideb ddrafft yn cynnwys Mentrau Cyllid Preifat (MCP) sy'n cymryd arian bob blwyddyn. Yna cynghorwyd sut mae cronfa argyfwng y Cyngor yn gweithio, sydd wedi'i rhannu'n bedwar grŵp i dalu am risgiau. Pan ofynnwyd a ydym yn gyfforddus â'r arbedion, dywedodd y Pennaeth Cyllid na ddylem fod yn hunanfodlon, mae £45 miliwn o hynny wedi'i glustnodi ar gyfer y mentrau cyllid preifat a delir dros 20 mlynedd. Mae'r gronfa wrth gefn yn bwysig, nid oes llawer o gynghorau yn meddu ar hynny. Mae galluogi cronfeydd wrth gefn yn ein galluogi i ariannu cyfalaf i gyflawni prosiectau cyfalaf allweddol. 36.5 miliwn yw'r lleiafswm sydd ei angen ar y Cyngor. Mae gennym ddigon i dalu am risgiau, ond wrth ddefnyddio'r cronfeydd mawr, gall ddod yn broblem.

- Holodd yr Aelodau am y toriadau mewn Credyd Cynhwysol a sut y gallai hynny effeithio ar y gyllideb. Dywedodd y Pennaeth Cyllid nad oes ganddo'r wybodaeth honno, bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o Gymru gyfan a sut y mae'n rhyngweithio â budd-daliadau eraill sydd ar waith. Gwneir hyn hefyd ar raddfa genedlaethol.

- Holodd yr Aelodau am MCP presennol y Cyngor, megis y Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol. Esboniwyd, yn hytrach na benthyca'r arian, y telir swm blynyddol bob blwyddyn i rywun arall ei chynnal. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian ychwanegol i Gasnewydd am 20 mlynedd, felly bydd yr arian dros ben yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ail hanner y mentrau cyllid preifat. Mae'r Cyngor wedi eistedd ar y cyllid ond mae hynny i dalu am brosiectau cyfalaf. Mae'r rhan fwyaf o MCP y Cyngor yn eithaf negyddol o ran cost. Dywedwyd hefyd bod talu am MCP yn sicrhau y cânt eu cynnal a'u cadw'n briodol gan y cwmnïau a'u dychwelyd mewn cyflwr teilwng.

- Cynghorwyd y bydd y ffigur sero ar Arbedion Cyllideb Newydd 2022/2023 ar dudalen 33 yn cael ei ddiweddaru gyda ffigur newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

**Casgliadau:**

Roedd y Pwyllgor yn dymuno gwneud y sylwadau ac argymhellion canlynol i'r Cabinet:

- Roedd y Pwyllgor am dynnu sylw at eu siom gyda diffyg cynllun strategol pedair blynedd, a dywedodd fod angen ei wthio ymhellach.
- Argymhellodd y Pwyllgor fod angen cyhoeddi'r Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb yn gynt.
- Dywedodd y Pwyllgor fod angen newid nifer y cynigion, fel y dangosir o dudalen 41 yn yr agenda.
- Y Pwyllgor i dynnu sylw at eu pryderon am y diffyg ymgynghori â staff ar gyfer cynigion fel Parcio Ceir yn Faulkner Road. Enghraifft arall oedd nad oedd staff yr Orsaf Wybodaeth yn ymwybodol o'r bwriad i symud i'r Llyfrgell Ganolog. Argymhellwyd, os bydd cynnig yn effeithio ar aelodau o staff, y dylid eu cynnwys. Dylid ymgysylltu'n gynharach hefyd â grwpiau yr effeithir arnynt.
- Lleisiodd y Pwyllgor foddhad o'r manylion a geir yn yr achosion busnes.
- Roedd y Pwyllgor am gael sylwadau gan Aelodau'r Cabinet am yr adborth a roddwyd gan y pwyllgorau Craffu.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:50.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.00 pm